**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg] i egwyddorion cyffredinol y [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)]**

**This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee] inquiry into the general principles of the [Tertiary Education and Research (Wales) Bill]**

**TER 45**
**Ymateb gan: Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
**Response from: National Library of Wales**

---

**Cylch Gorchwyl**

- Rhan 1: fframwaith strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil
- Rhan 2: cofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol
- Rhan 3: sicrhau a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil
- Rhan 4: prentisiaethau
- Rhan 5: diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno a chynnwys dysgwyr
- Rhan 6: gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd
- Rhan 7: darpariaethau amrywiol a darpariaethau cyffredinol

Hoffai'r Llyfrgell gyflwyno sylwadau ar y rhannau canlynol:

**Rhan 1: Fframwaith Strategol**

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cytuno gyda'r egwyddorion sy'n sail i'r weledigaeth strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil, a gyda'r nod o sefydlu un comisiwn cenedlaethol fydd yn darparu dull mwy strategol, cydlynol ac effeithlon o arwain ym meysydd Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Credwn bod rôl amlwg i'r Llyfrgell wrth gefnogi y weledigaeth strategol, a byddem yn croesawu y cyfle i fod yn rhan o'r trefniadau newydd hyn.

Credwn y byddai modd i ni fel Llyfrgell Genedlaethol chwarae ein rhan hefyd wrth gyflawni 9 dyletswydd strategol y mesur, a bod cyfraniad amlwg iawn i ni fel sefydliad wrth gynorthwyo'r Llywodraeth i gyflawni'r rhain. Mae'r Llyfrgell yn y broses o ddatblygu cynllun Dysgu Gydol Oes, a bydd modd alinio cynnwys y strategaeth honno gyda'r weledigaeth sydd yn y mesur.

**Rhan 3: sicrhau a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil**

Mae Cynllun Strategol y Llyfrgell ar gyfer 2021-2026 yn cydnabod ein rôl yn y gwaith o 'rymuso ymchwil a dysg' ac o 'osod sylfaen ar gyfer economi gwybodaeth'. Yn

ogystal a ffocws ar y ddarpariaeth credwn y dylid ystyried sut mae modd datblygu a chefnogi yr isadeiledd sy’n angenrheidiol ar gyfer ymchwil, addysg uwch ac addysg drydyddol. Mae casgliadau ymchwil a sgiliau staff sefydliadau fel y Llyfrgell Genedlaethol yn rhan annatod o’r isadeiledd ymchwil hwn. Dylid ystyried sut y gall y comisiwn arfaethedig gydweithio a chyllido sefydliadau fel y Llyfrgell Genedlaethol a sefydliadau eraill sy’n chwarae rôl allweddol mewn cefnogi ymchwil a dysgu. Mae’r Llyfrgell Genedlaethol yn cydweithio’n agos â Llyfrgelloedd ymchwil ar draws Cymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol trwy gyrff megis The Wales Higher Education Libraries Forum (WHELF), Research Libraries UK, Society of College, National and University Libraries (SCONUL) ac yn cydweithio’n agos gyda Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol y Deyrnas Unedig i sicrhau fod casgliad ymchwil sy’n cwmpasu cyhoeddiadau print a digidol y Deyrnas Unedig ac Iwerddon ar gael at bwrpas addysgu ac ymchwil.

**Rhan 4: prentisiaethau**

Mae'r Llyfrgell yn croesawu sefydlu system brentisiaethau newydd sy’n hyblyg ac yn ymateb i anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Mae'r Llyfrgell yn bartner yng nghynllun Sgiliau ar Gyfer y Dyfodol sy'n cael ei arwain gan CCSkills, ac o dan y cynllun hwn rydyn ni'n derbyn hyfforddai 16-24 oed am gyfnodau estynedig. Mae’r rhain yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth, a'r cyfle i weithio ym maes diwylliant a threftadaeth. Rydyn ni fel sefydliad yn elwa'n fawr o fod yn rhan o'r cynllun, ac yn croesawu cyfleoedd i fod yn rhan o gynlluniau tebyg yn y dyfodol.

**Rhan 5: diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno a chynnwys dysgwyr**

Mae'r Llyfrgell yn croesawu'r ffaith fod y Mesur yn darparu ar gyfer diwygiadau sy’n rhoi’r dysgwr wrth wraidd y system addysg drydyddol. Mae'r Llyfrgell yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau a gwybodaeth trwy ein cynllun gwirfoddoli, yn cynnig hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster trwy Casgliad y Werin, yn cydweithio gyda Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar raglenni penodol, yn cynnig hyfforddiant wedi ei deilwra yn rhad ac am ddim i grwpiau ac unigolion, ac yn rhannu arbenigedd trwy ein gwasanaethau amrywiol. Wrth drefnu'r ddarpariaeth hon mae'r Llyfrgell yn sicrhau bod buddiannau dysgwyr a chyfranogwyr yn cael eu cynrychioli, a’u bod yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a chyfle i roi eu barn i ni am yr addysg a'r gwasanaeth y maent yn ei derbyn.